

# CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2020

**PRESENNOL:** Aelodau Annibynnol

Mr John R Jones (Cadeirydd)  
Mr Thomas Rhys Davies (Is-gadeirydd)

Mrs Celyn Menai Edwards  
Mrs Gill Murgatroyd  
Mrs Sharon Warnes

**Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref a Chymuned**

Y Cynghorydd Keith Roberts

**WRTH LAW:** Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) (MY)  
Swyddog Pwyllgor (SC)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Iorwerth Roberts (Cynghorau Tref a Chymuned)  
Y Cynghorwyr J Arwel Roberts, Dafydd Rhys Thomas

---

### 1 CADEIRYDD AR GYFER Y CYFARFOD

Penodwyd Mr John R Jones yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

### 2 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion drafft y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 17 Medi 2019 i'r Pwyllgor.

Esboniodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) nad oedd cworwm yn bresennol, ac nad oedd modd cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 17 Medi 2019, gan mai dim ond dau aelod a oedd yn bresennol yn y cyfarfod blaenorol oedd yn bresennol, sef y Cadeirydd a'r Cynghorydd Keith Roberts. Dywedodd bod rhaid cael tri aelod a oedd yn bresennol yn y cyfarfod blaenorol i gadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

Cyflwynir y cofnodion drafft i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau ar 11 Mawrth 2020 i'w cadarnhau. Cadarnhaodd y Cadeirydd a'r Cynghorydd Roberts bod y cofnodion yn gywir yn eu barn nhw.

Dywedodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ei bod wedi anfon dogfen "materion yn codi" at holl aelodau'r pwyllgor Safonau yn rhoi manylion am y camau a gymerwyd, yn unol â chofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Medi 2019.

Cyfeiriodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) at eitem 11 yn y cofnodion – ‘Adroddiad Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru’. Rhannwyd e-bost gydag aelodau'r Pwyllgor Safonau mewn perthynas â chyfarfod nesaf y Fforwm ac unrhyw eitemau yr oedd yr aelodau'n dymuno eu hawgrymu ar gyfer y rhaglen.

### **3 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### **4 ETHOL CADEIRYDD**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ynglŷn â'r broses o ethol Cadeirydd ar gyfer y Pwyllgor Safonau, yn unol â Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 a Pharagraff 2.9.2.6.2 Cyfansoddiad y Cyngor.

Adroddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) bod rhaid i'r Pwyllgor Safonau ethol Cadeirydd o blith ei aelodau annibynnol. Mae gan bob aelod o'r Pwyllgor bleidlais. Bydd y Cadeirydd yn cael ei ethol am gyfnod o bedair blynedd, neu hyd nes y bydd tymor yr aelod annibynnol ar y Pwyllgor Safonau'n dod i ben. Bydd y Cadeirydd yn gymwys i gael ei ail-ethol i'r rôl.

**PENDERFYNWYD ethol Mr John R Jones yn Gadeirydd ar y Pwyllgor Safonau am gyfnod o bedair blynedd (a bydd yn gymwys i gael ei ail-ethol).**

**Gweithredu: Gweler y penderfyniad uchod**

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor Safonau am ymddiried ynddo drwy ei ethol yn Gadeirydd, a dywedodd y byddai'n ceisio gwneud ei orau yn y swydd. Roedd yn croesawu cefnogaeth y Pwyllgor ac yn edrych ymlaen at weithio fel tîm, gyda chymorth swyddogion. Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn bwriadu gwasanaethu am un tymor yn unig fel bod yr awenau'n cael eu trosglwyddo'n llyfn i ba bynnag aelod annibynnol fydd yn cael ei ethol yn Gadeirydd ar y Pwyllgor yn y dyfodol.

### **5 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar y weithdrefn i ethol Is-gadeirydd ar gyfer y Pwyllgor Safonau, yn unol â Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001.

Adroddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) bod rhaid i'r Pwyllgor Safonau ethol Is-gadeirydd o blith yr aelodau annibynnol am gyfnod o bedair blynedd, neu hyd nes bydd cyfnod yr aelod annibynnol ar y Pwyllgor Safonau'n dod i ben. Bydd yr Is-gadeirydd yn gymwys i gael ei ail-ethol hefyd. Mae gan bob aelod o'r Pwyllgor hawl i bleidleisio.

Cafwyd trafodaeth ynghylch a ddylid ystyried tymor o lai na phedair blynedd ar gyfer rôl yr Is-gadeirydd. Esboniodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) bod rhaid i'r Pwyllgor Safonau wneud penderfyniad yn unol â'r rheolau statudol a chyfansoddiadol. Er mwyn newid tymor yr Is-gadeirydd byddai'n rhaid i'r Cyngor llawn ddiwygio Cyfansoddiad y Cyngor.

**PENDERFYNWYD ethol Mr Thomas Rhys Davies yn Is-gadeirydd ar y Pwyllgor Safonau am gyfnod o bedair blynedd (a bydd yn gymwys i gael ei ail-ethol).**

Daeth y cyfarfod i ben am 1.40 pm

**MR JOHN R JONES  
CADEIRYDD**